COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB / VIA MICROSOFT TEAMS DYDD GWENER, 1 MEDI 2023, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd B Stephens – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Davies | G John | J Lynch-Wilson |
| JC Spanswick | C Stallard | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S J Griffiths

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Dean Jones | Cyfrifydd - Ariannol |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddol Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

30. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

31. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo dyddiedig 9 Mehefin 2023, fel cofnod gwir a chywir.

32. GWOBR BANER WERDD

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth ar gyfer Amlosgfa Llangrallo wrth y pwyllgor fod eu cais am wobr y Faner Werdd wedi bod yn llwyddiannus. Mae’r wobr yn hybu safonau rheoli da yn sector y mannau gwyrdd a safonau amgylcheddol uchel. Caiff y wobr ei dyfarnu ar sail awyrgylch groesawus, amgylchedd iach, bod yn ddiogel ac yn saff, lle sy’n cael ei gynnal a’i gadw’n dda, bioamrywiaeth, tirlun a threftadaeth, cynnwys y gymuned a chyfathrebu a rheoli. Cadarnhaodd na chynhaliwyd seremoni na chyflwyniad eleni. Roedd y cyfnod ymgeisio eto i fod ym mis Ionawr 2024 a byddai’n costio £350.

Cydnabu’r Aelodau’r ffaith fod y Faner Werdd wedi cael ei dyfarnu i Amlosgfa Llangrallo unwaith eto, am y gwasanaeth o safon uchel oedd yn cael ei ddarparu i’w gwsmeriaid gan y cyfleuster a’i staff.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn diolch i staff a rheolwyr Amlosgfa Llangrallo am eu gwaith caled, cyson a’u ffordd o ofalu am y cyfleuster a’r tir o’i amgylch a nododd yr adroddiad gyda phleser.

33. DATGANIAD MONITRO REFENIW 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2023 A DATGANIAD CYFRIFYDDU BLYNYDDOL 2022-23 DIWEDDARIAD

Cyflwynodd Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol a Chau Adroddiad i roi gwybodaeth ac i asesu perfformiad ariannol a'r rhagamcanion ar gyfer Amlosgfa Llangrallo a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y Datganiad Monitro Refeniw am y cyfnod uchod.

Dywedodd fod diffyg o £311,000 a nodwyd hyn gan yr aelodau o gymharu â'r rhagamcan disgwyliedig o £71,00. Dangosai Datganiad Blynyddol y Cyfrifydd (sydd bellach wedi ei gyflwyno i Archwilio Cymru) ddiffyg o £361,665 a balans o £2,817,942 ar 31/03/23.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi a chymeradwyo'r Datganiad Monitro Refeniw, gan sylwi fod gwerth sylweddol am arian am gost y cynnydd yn y gwariant, yn ogystal â'r ffaith fod cronfeydd wrth gefn ar gael i dalu am y cynnydd hwnnw yn y gwariant yn awr ac wrth symud ymlaen i'r dyfodol.

34. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 14:16